



cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

Gair i Gall



Pwy sy'n gallu codi arian yn eich mudiad chi?

Pobl



Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sydd eisiau rhoi rhagor o adnoddau ar waith i godi arian.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Pawb yn y mudiad yn deall yn iawn sut maen nhw'n cyfrannu at holl ymdrechion codi arian y mudiad ac adnoddau digonol wedi'u dyrannu tuag at wella'r gallu i godi arian ymhlith y tîm staff a/neu wirfoddolwyr.

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Gwybodaeth am eich cyllideb codi arian

Dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer codi arian

Dealltwriaeth o'r sgiliau a'r profiadau sydd gan eich staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Mae codi arian yn golygu gofyn i bobl eraill am arian mewn ffyrdd gwahanol (cyfraniadau, grantiau, nawdd, ewyllysiau, cyllido torfol, ac ati). **Mae rhoi gweithgareddau codi arian llwyddiannus ar waith yn cymryd amser ac mae angen ymrwymiad yr holl fudiad.**
- Mae gan bawb yn eich mudiad rôl i'w chwarae er mwyn helpu i gyflawni amcanion codi arian, felly mae'n bwysig eu bod yn deall sut gallan nhw gefnogi'ch gweithgareddau codi arian. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r Bwrdd, gwirfoddolwyr, gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr. **Mae'n werth treulio amser yn rhoi gwybod i bobl am eich amcanion codi arian a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio**, a chynnwys pawb yn y gwaith o helpu i hyrwyddo'r gweithgareddau (ac achos eich mudiad gan eu bod oll yn lysgenhadon dros eich gwaith).

- Mae ymgyrchoedd / gweithgareddau codi arian yn cysylltu pobl gydag achosion sy'n bwysig iddyn nhw, ond mae gwaith codi arian rhagorol yn golygu mwy na dod ag arian i mewn. Mae'n golygu **datblygu perthynas bositif, gynaliadwy, barchus gyda chefnogwyr** a gwreiddio gwerthoedd eich mudiad yn eich strategaeth a'ch dull o fynd ati i godi arian.
- **Yn y bôn, gallai unrhyw un sydd â'r sgiliau iawn gyflawni eich gweithgareddau codi arian.** Mewn rhai amgylchiadau, aelod o staff fydd yr un iawn i wneud y gwaith. Mewn achosion eraill, gallai fod yn ymddiriedolwr neu'n bwyllgor o wirfoddolwyr.
- Gallai helpu petaech chi'n meddwl am y nodweddion hanfodol mewn unrhyw un fydd yn codi arian (ac mae'r rhain yn amrywio yn ôl y math o weithgaredd codi arian sydd dan sylw) a gallant gynnwys: **Sgiliau cyfathrebu rhagorol; gallu i gynllunio a threfnu; cydymdeimlad â'r achos; dealltwriaeth o gyllid a chyllidebau; a chreadigrwydd.**
- Y sgil allweddol yw cyfathrebu. Mae dweud wrth ddarpar gyllidwyr, cyfranwyr a chefnogwyr am waith yr elusen neu'r mudiad, a thrwy hynny, eu hannog i roi arian yn un o hanfodion codi arian. **Mae sgiliau cyfathrebu da wrth wraidd llwyddiant eich holl weithgareddau codi arian.** Bydd rhywun sy'n dda am godi arian yn gallu dangos i gyfranwyr sut bydd eu rhodd yn trawsnewid gallu'r mudiad i fodloni anghenion ei fuddiolwyr, a chreu newid cadarnhaol.
- **Mae'n bosib y bydd gennych aelod staff sydd â chodi arian yn un elfen o'i rôl os nad oes gennych ddigon o adnoddau i gyflogi swyddog codi arian penodedig.** Gall gweithio fel hyn fod yn arbennig o fuddiol oherwydd bydd gan yr aelod staff brofiad uniongyrchol o ddarparu gwasanaethau'r mudiad a'r wybodaeth sydd ei hangen i 'adrodd y stori', a bydd yn gallu cyfrannu at wella brand ac enw da eich mudiad.
- Mae cael unigolyn allweddol o'r fath, sy'n gallu cyflawni gwaith codi arian dydd-i-ddydd, datblygu perthynas gyda chyllidwyr, cyfranwyr a chefnogwyr, yn ogystal â chyfrannu at waith ehangach y mudiad, yn hollbwysig. Yr anfantais ydy'r cyfyngiadau all fod ar yr amser sydd ar gael ar gyfer codi arian oherwydd yr angen sylfaenol i ddarparu gwasanaethau, felly dylech **gydnabod elfen codi arian y rôl yn y disgrifiad swydd a dyrannu digon o amser ar gyfer y rôl honno.**
- **Efallai bod gennych wirfoddolwyr yn cefnogi eich mudiad (gan gynnwys ymddiriedolwyr) sydd â sgiliau a phrofiad codi arian perthnasol ac sy'n barod i helpu gyda gwaith codi arian,** allai olygu postio llythyrau apêl neu gynllunio digwyddiadau. Er enghraifft, efallai bod gennych ymddiriedolwr sy'n gyfarwydd ag ysgrifennu ceisiadau am grantiau, neu wirfoddolwr sydd wedi cynnal digwyddiadau codi arian cymunedol effeithiol. Holwch eich pobl.
- Mae gwirfoddolwyr yn ased, a gall yr amser y maen nhw'n ei gyfrannu ychwanegu gwerth aruthrol i waith tîm bach o staff. Dylid nodi bod **angen buddsoddi amser ac arian i recriwtio, hyfforddi a chynnal gwirfoddolwyr sy'n codi arian,** felly meddyliwch beth fyddai hyn yn ei olygu i'ch mudiad chi. A yw'r capasiti gennych chi nawr i wneud hyn? Os nad yw, sut gallwch chi ddatblygu'r capasiti?

- Yn ogystal â gwella'r gallu i godi arian ymhlith staff a gwirfoddolwyr, **gallech ystyried gweithio gydag ymgynghorydd codi arian hefyd**. Gallai ymgynghorydd fod yn addas os oes angen cyngor neu ganllawiau arnoch chi ynglŷn â strategaeth codi arian, neu gyngor arbenigol ar agwedd benodol ar godi arian, neu os yw codi arian trwy lwyfannau penodol yn newydd i'ch mudiad chi.
- **Fel rheol, rhoddir cytundeb i ymgynghorydd ar gyfer amser penodol i gyflawni tasg benodol**. Mae rhai ymgynghorwyr yn codi arian yn broffesiynol hefyd a gallant weithio gyda'ch mudiad chi i ddatblygu cais penodol am gyllid neu apêl benodol. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n rheidrwydd cyfreithiol iddynt gael cytundeb gyda'ch mudiad. Hyd yn oed os na fyddant yn gwneud gwaith codi arian i chi, mae cael cytundeb ar waith yn arfer da, yn ogystal â rhoi brîff iddynt.
- Mae'n bwysig nodi bod rhai cyllidwyr yn datgan yn benodol nad ydyn nhw am i godwyr arian proffesiynol fod yn cynorthwyo gyda cheisiadau iddyn nhw - felly **gwiriwch feini prawf y cyllidwr ymlaen llaw bob tro** os ydych chi'n ystyried dilyn y llwybr hwn.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.